Fy Nhad o'r nef, O gwrando 'nghri

Caneuon Ffydd: Rhif 691

Fy Nhad o'r nef, O gwrando 'nghri:
un o'th eiddilaf blant wyf fi;
O clyw fy llef a thrugarha,
a dod i mi dy bethau da.

Nid ceisio 'rwyf anrhydedd byd,
nid gofyn wnaf am gyfoeth drud;
O llwydda f'enaid, trugarha,
a dod i mi dy bethau da.

Fe all mai'r storom fawr ei grym
a ddaw â'r pethau gorau im;
fe all mai drygau'r byd a wna
i'm henaid geisio'r pethau da.

Fy Nhad o'r nef, O gwrando 'nghri
a dwg fi'n agos atat ti,
rho imi galon a barha
o hyd i garu'r pethau da.

MOELWYN, 1866–1944

MYFYRDOD

Fe gafodd Moelwyn ei ddymuniad bellach gan olygyddion *Caneuon Ffydd*, ac fe gynhwyswyd ei emyn fel y dymunai ef iddo ymddangos yn y lle cyntaf. O dan y teitl 'y doniau da' yr ymddangosodd yr emyn yng nghasgliad y Methodistiaid ym 1927, gyda Moelwyn yn gorfod ildio i gynnwys 'doniau da' yn hytrach na 'pethau da', oherwydd yr ofn y byddai rhai ardaloedd yng Nghymru yn cymryd yr emyn yn ysgafn oherwydd mai dyna oedd eu gair nhw am fferins neu losin! Mae John Thickens yn adrodd yr hanes ac yn sôn am y dymuniad a wireddwyd yma yn *Caneuon Ffydd,* 'Os yw'r emyn i fod mewn rhyw gasgliad eto, fel y lluniwyd

ef ar y cyntaf yr hoffwn iddo ymddangos.'

Dyfynnu Mathew 7:11 oedd Moelwyn. Yno ceir sôn am y pethau da y mae Duw eisiau eu rhoi i'r rhai sy'n gofyn ganddo. Gallwn feddwl am y storfa fawr o bethau da y mae Duw fel Tad eisiau inni eu cael, ond sy'n aros heb eu rhoi am nad ydym yn gofyn amdanyn nhw. Cofiai Moelwyn fel y byddai yn blentyn yn gwrando ar Richard Owen y Diwygiwr yn gweddïo am y pethau da sydd gan Dduw ar ein cyfer. Dechreuodd Moelwyn weddïo yn yr un modd am y pethau da y mae Duw eisiau eu rhoi i'w blant ac fe drodd ei weddi yn emyn bron yn ddiarwybod iddo. Ond nid un i'n difetha ni gydag anrhegion ydy Duw, fel y bydd ambell blentyn yn cael popeth y gofynna amdano, a llawer mwy nag sy'n dda iddo. Rhoi yr hyn sy'n angenrheidiol inni a wna Duw, gan roi pethau da i'w blant os yw'n gwybod y bydd o les iddyn nhw.

Efallai mai'r llinellau mwyaf cyfarwydd yn yr emyn ydy:

Fe all mai'r storom fawr ei grym
a ddaw â'r pethau gorau im.

Er nad oedd Moelwyn ond yn ddeunaw oed pan gyfansoddodd yr emyn, yr oedd yn amlwg yn gallu ymddiried yn dawel yn yr Arglwydd ac yn gwybod 'fod Duw, ym mhob peth, yn gweithio er daioni gyda'r rhai sy'n ei garu', fel y dywed Paul yn ei lythyr at Gristnogion Rhufain (8:28). Dim ond ymddiriedaeth felly a all ganu am y storm fawr yn dod â'r pethau gorau inni, a'r storm hefyd yn ein cymell i geisio Duw fwyfwy. Fe ddywedir mai dau beth a all ddigwydd i'n bywyd ysbrydol a'n perthynas â Duw pan fydd stormydd bywyd yn pwyso arnom, sef naill ai cilio oddi wrtho a cholli ffydd, neu nesáu ato a phrofi ei gynhaliaeth, ei ras a'i drugaredd tuag atom. Un peth sy'n sicr ydy nad yw ein perthynas â Duw yn aros yr un fath yn ystod y cyfnodau hyn. Byddwn yn rhai sydd yn gofyn ganddo fel Tad sydd â gofal ohonom bob amser.

GWEDDI

O Dad nefol, cymaint mwy parod wyt ti i roi pethau da inni na'n rhieni daearol hyd yn oed, a chymaint mwy y gwyddost ti amdanom ni a'n holl anghenion. Cadw fi'n agos atat ac yn barod bob amser i geisio dy gynhaliaeth, dy drugaredd a'th ras, beth bynnag fo'r storm sy'n rhuo yn fy mywyd. Yn enw Iesu. Amen.